Natur Ar Eich Stepen Drws

# Malwod Dŵr Gerddi Cymru

Oes malwod yn byw ym mhwll bach eich gardd? Beth am fynd i edrych? Dyma rai o'r rhai mwyaf cyffredin. Rhowch wybod i beth fyddwch chi'n ei ganfod, ac ymhle, ar Twitter drwy @CardiffCurator.

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr amgueddfa i gael cymorth gydag adnabod, ewch i amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws

AMGUEDDFA CYMRU

001



## Malwen Ddŵr Grwydrol

*Ampullaceana balthica*

Gellir dod o hyd i'r falwen gyffredin hon mewn pyllau ac addurniadau dŵr, yn pori ar arwynebau cerrig a phlanhigion.

Mae'r gragen yn fyr ac yn ddi-fin gydag agoriad mawr, hirgrwn. Mae ganddi gorff llwydaidd, gyda brychau a thentaclau trionglog (fflapiau uwchben smotiau'r llygaid).

*Maint go iawn (taldra o 15mm)





## Malwen Ddŵr Fawr

*Lymnaea stagnalis*

Brenin y pwll bach! Mae'r rhywogaeth hon yn hoff o byllau aeddfed, wedi eu gorchuddio â phlanhigion. Mae'n arnofio ar yr arwyneb mewn tywydd poeth.

Mae'r gragen yn dal ac yn bigfain gydag agoriad mawr, hirsgwar bron â bod. Mae'r tentaclau yn drionglog.

(taldra o hyd at 45mm)





## Malwen Gorn-Maharen Fwyaf

*Planorbarius corneus*

Gellir dod o hyd i'r falwen garismataidd hon ym mhwll dŵr sawl gardd, yn ymlusgo ar hyd arwynebau a thyfiant.

Siâp olwyn fflat yw'r gragen. Mae'r corff meddal naill ai'n lliw coch neu'n llwyd tywyll, ac mae'r tentaclau yn hir, tenau a thiwbaidd.

(30mm o led)






## Malwen Lefn Gyffredin

*Physa fontinalis*

Mae'r rhywogaeth frodorol hon yn siglo ei chragen swigennaidd wrth iddi ymlusgo.

Mae brig y gragen yn fflat ac mae'r agoriad ar yr ochr chwith. Mae patrwm blotiog y corff yn dangos drwy'r gragen tryloyw.



(taldra o 9mm)





## Malwen Lefn Lem

*Physella acuta*

Cafodd y rhywogaeth hon ei chyflwyno'n ddamweiniol o Ogledd America, ac mae wedi lledu i nifer o lefydd gan gynnwys pyllau bach gerddi.

Mae'r falwen hon yn ymdebygu i'r Falwen Lefn Gyffredin, ond mae ganddi gragen mwy pigfain a chorff llai blotiog.

(taldra o 10mm)

